



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## RHAN 11: Plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel



#SSWbAct

# Y dull newydd

- Ar 6 Ebrill 2016 daw trefniadau 'gofal a chymorth' newydd dan y Ddeddf i rym - mae'r ffocws ar:
  - 'bobl', gan gynnwys plant a'u teuluoedd, oedolion a gofalwyr
  - diwallu angen unigolyn am ofal a chymorth i wneud y gorau o'u lles ac annog annibyniaeth
  - cynyddu swm, amrywiaeth a'r defnydd o wasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned i wneud y mwyaf o annibyniaeth dinasyddion a galluogi rhagor o hunan-reolaeth dros eu canlyniadau lles

# Y dull newydd

Prif elfennau Deddf 2014 yw:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Asesu
- Meini Prawf Cymhwysedd
- Cynlluniau Gofal a Chymorth ac Adolygiadau
- Y gallu i gludo Gofal a Chymorth

Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn union fel ar gyfer y rhai sy'n byw yn y gymuned.

# Plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel

O fis Ebrill 2016 awdurdodau lleol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth:

- Plant Cymru sydd mewn sefydliadau diogel, boed hynny yng Nghymru neu yn Lloegr;
- categorïau penodol o blant o Loegr mewn sefydliadau diogel yng Nghymru

# Beth na chymhwyswyd

Mae'r Ddeddf wedi cael ei llunio ar sail gynhwysol ac eithrio na all y rhai sydd yn y ddalfa:

–fod yn ofalwyr;

–derbyn taliadau uniongyrchol;

–mynegi dewis ynghylch eu llety tra byddan nhw yn y ddalfa ac eithrio at ddibenion cynllunio ar gyfer eu rhyddhau; na'r

–hawl i'w heiddo dderbyn gofal tra byddan nhw oddi cartref.

**Mae HOLL ddarpariaethau eraill y Ddeddf yn gymwys gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r gwasanaethau ataliol a llesiant.**

# Adran 186 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Rhaid i'r awdurdod lleol cartref yng Nghymru:

- gwrdd ag anghenion gofal a chymorth plant, pa un ai a ydyn nhw'n cael eu cadw yng Nghymru neu yn Lloegr, yn union fel y bydden nhw pe baen nhw'n byw yn y gymuned.
- cynllunio ei weithdrefnau a'i wasanaethau i allu cwrdd ag anghenion gofal a chymorth y plant hynny.
- Addasu'r ffordd o gyflwyno trefniadau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion poblogaeth a threfn sefydliadau diogel perthnasol.

# Cod Ymarfer



Social Services and  
Well-being (Wales) Act 2014  
Part 11 Code of Practice (Miscellaneous and General)



<http://intranet/English/News/Events/Pages/Stuck-for-a-meeting-venue.aspx>

<http://www.cgcyrmru.org.uk/y-ddeddf/?force=2>

<b>Statws preswyl arferol y plentyn</b>	<b>Statws y plentyn</b>	<b>Lleoliad cadw</b>	<b>Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol</b>
Mewnfudwr neu blentyn heb statws preswyl arferol		Cadw yng Nghymru	Awdurdod Lleol yng Nghymru lle mae'r plentyn yn cael ei gadw i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth
Plentyn sydd fel arfer yn preswyl yn un o Awdurdodau Lleol Cymru	Heb ystyried a yw'r plentyn wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r gwasanaethau cymdeithasol	Cadw yng Nghymru	Awdurdod lleol cartref y plentyn yng Nghymru i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth
Plentyn sydd fel arfer yn preswyl yn un o Awdurdodau Lleol Cymru	Os oedd y plentyn dan Adran 20 neu Adran 31 (Deddf Plant 1989) cyn cael ei gadw.	Cadw yn Lloegr	Cyfrifoldeb Awdurdod Lleol cartref y plentyn yng Nghymru yw diwallu'r anghenion gofal a chymorth



<b>Statws preswyl arferol y plentyn</b>	<b>Statws y plentyn</b>	<b>Lleoliad cadw</b>	<b>Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol</b>
Plentyn sydd fel arfer yn preswyl yn un o Awdurdodau Lleol Lloegr	Os oedd y plentyn dan Adran 20 neu Adran 31 (Deddf Plant 1989) cyn cael ei gadw.	Cadw yng Nghymru	Cyfrifoldeb Awdurdod Lleol cartref y plentyn yn Lloegr yw diwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn (A)
Plentyn sydd fel arfer yn preswyl yn un o Awdurdodau Lleol Lloegr	Os nad oedd y plentyn yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu os aseswyd ei fod dan Adran 17 (Deddf Plant 1989) cyn cael ei gadw.	Cadw yng Nghymru	Yr awdurdod lleol yng Nghymru lle mae'r plentyn yn cael ei gadw sy'n gyfrifol am anghenion gofal a chymorth y plentyn hwnnw.
Plentyn sydd fel arfer yn preswyl yn un o Awdurdodau Lleol Cymru	Os yw'r plentyn naill ai heb gael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r gwasanaethau cymdeithasol, neu wedi cael ei asesu dan Adran 17 (Deddf Plant 1989) cyn cael ei gadw.	Cadw yn Lloegr	Ar gyfer y grŵp hwn o blant, mae cyfrifoldeb deul ar Awdurdod Lleol cartref y plentyn yng Nghymru dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llaesiant a'r Awdurdod Lleol yn Lloegr lle mae'r plentyn yn cael ei gadw dan Ddeddf Plant 1989. (B)

# Cod Ymarfer - Rhan 11

**Paragraff A** - Deddf Plant 1989, a rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno, yn enwedig Rheoliadau Gofal, Cynllunio, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010 a Rheoliadau Ymweliadau â Phlant a Arferai Dderbyn Gofal sydd mewn Mannau Cadw (Lloegr) 2010 yw'r sail a ddefnyddir i bennu mai'r awdurdod lleol cartref yn Lloegr sy'n cadw'r cyfrifoldeb am y plant hyn. Yn ogystal, mae adran 186(6) Deddf 2014 yn golygu nad yw adrannau 21, 37 a 38 yn gymwys o gwbl mewn perthynas â phlant a fu dan adran 20 a gadwyd yng Nghymru yr oedd eu hawdurdod lleol cyfrifol yn Lloegr.

**Paragraff B** - Mae awdurdod lleol cartref Cymru a'r awdurdod lleol yn Lloegr yn rhannu cyfrifoldeb lle mae'r plentyn yn cael ei gadw. Mae'r ddau'n gyfrifol am blentyn o Gymru sy'n cael ei gadw yn Lloegr, ond lle na fu unrhyw ymwneud blaenorol gan y gwasanaethau cymdeithasol, neu os yw'r plentyn wedi cael ei asesu fel plentyn mewn angen dan Adran 17 Deddf Plant 1989. Bydd angen i'r awdurdodau lleol dan sylw yng Nghymru a Lloegr gytuno rhyngddyn nhw pwy sy'n bennaf gyfrifol a sut bydd hyn yn cael ei ddwyn ymlaen fesul achos. Bydd angen nodi'r cytundeb hwn mewn **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** rhwng y ddau awdurdod lleol.

# Cod Ymarfer - Rhan 11

Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 11 yn nodi pa ddyletswyddau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol:

- barhau i'w darparu mewn perthynas â phobl ifanc categori 2, 5 a 6 tra byddan nhw'n cael eu cadw: Ymgynghorwyr personol, asesiadau llwybr a threfniadau byw ar ôl 18 oed
- rhoi'r gorau mewn perthynas â phobl ifanc tra byddan nhw'n cael eu cadw: Cymorth / llety / addysg / hyfforddiant.
- cydnabod y dyletswyddau dan adrannau 109, 114 a 115 sy'n sbardunau eto pan fydd yr unigolyn ifanc yn cael ei ryddhau.
- Mae Rhan 6 hefyd yn cynnwys dyletswyddau -

# Rhan 6 - plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

- Mae Rhan 6 y Ddeddf yn nodi'r darpariaethau ar gyfer 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant sy'n cael eu lletya' a rhai sy'n gadael gofal.
- Mae Adran 97 yn ymestyn dyletswyddau awdurdodau lleol fel eu bod nhw'n gyfrifol am ymweld â phob plentyn sydd yn y carchar.
- Tra bydd plant mewn sefydliad diogel NID oes ganddyn nhw hawl i ddarpariaethau rhai sy'n gadael gofal, ond rhaid i'r rhain gael eu hadfer ar ôl eu rhyddhau.

# Cod Ymarfer - Rhan 11

Trawsnewid i fod yn oedolyn

- Pan fydd plentyn mewn sefydliad diogel yn cyrraedd 18 oed, mae'n cael ei ystyried yn oedolyn yn gyfreithiol. Wrth i'r unigolyn ifanc gael ei drosglwyddo i gyfleuster newydd, bydd yr Awdurdod Lleol lle mae wedi ei leoli yn cymryd cyfrifoldeb am ei ofal a'i gymorth.

- Yn ymarferol dylai symudiadau o'r fath gael eu hystyried fesul achos, a buddiannau gorau'r plentyn / unigolyn ifanc ddylai gael y flaenoriaeth.

- Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol cartref yng Nghymru gofio ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r rhai sy'n gadael gofal

# Cod Ymarfer - Rhan 11

Diogelu plant:

- Dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, byrddau diogelu plant sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yn eu hardaloedd o fis Ebrill 2016 ymlaen.
- Mae **Cartref Diogel i Blant Hillside** yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol - wedi ei gofrestru ac yn cael ei arolygu gan AGGCC.
- Cyfrifoldebau o ddydd i ddydd ar gyfer trefniadau diogelu - rheolwr cofrestredig dan oruchwyliaeth yr Awdurdod Lleol.
- Mae'n **rhaidd** i'r byrddau diogelu a'r rheolwr cofrestredig yn Hillside sefydlu mecanweithiau i nodi'n glir sut bydd eu dyletswyddau a rennir i ddiogelu plant yn yr uned yn cael eu rhoi ar waith.

# Cod Ymarfer - Rhan 11

Diogelu plant:

- Mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a Sefydliad Troseddwyr Ifanc eraill yn destun Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 8/2012 Gofal a Rheoli Pobl Ifanc.
- Mae Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 8/2012 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ailgyhoeddi i ystyried y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc lunio, cyhoeddi a chytuno ar ddatganiad polisi diogelu plant a'i adolygu'n flynyddol gyda'r bwrdd diogelu plant newydd (o fis Ebrill ymlaen).

# Canllawiau Atodol a Ilwybrau

- Canllawiau Atodol a Ilwybr cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel - i'w gyhoeddi cyn bo hir.
- Yn darparu cyd-destun a chefnidir ar gyfer sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc
- Yn amlygu pwysigrwydd ystyried teuluoedd a phlant sy'n cael eu heffeithio gan y ffaith bod rhiant yn y carchar
- Trefniadau partneriaeth
- Gofynion y gweithlu
- Taith gam wrth gam drwy sefydliadau diogel a pharatoi ar gyfer eu rhyddhau, gyda gweithwyr proffesiynol allweddol wedi eu nodi ar bob cam